

Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Goldsmith CF
Cadeirydd, Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi

28 Medi 2021

Annwyl Arglwydd Goldsmith

Cytundebau rhyngwladol

Hoffwn gyflwyno fy hun fel Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am rai o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd. Mae hyn yn cynnwys ystyried cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn gysylltiedig â masnach a monitro eu gweithrediad. Mae cytundebau masnach bellach yn dod o fewn cylch gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd.

Rwy'n ymwybodol o gyhoeddiad diweddar adroddiad eich Pwyllgor ar Working practices: one year on, ac rwy'n croesawu eich ymrwymiad i geisio ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig ac adlewyrchu safbwynt y DU gyfan ar faterion o'r fath. Rwyf hefyd yn croesawu eich bwriad i barhau i godi yn San Steffan y mater yn ymwneud ag ymgynghori â'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, fel y gellir ymgorffori barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad cyn belled ag y bo modd yng nghasgliadau Senedd y DU.

Yn ystod ein cyfarfod ar 13 Medi 2021, gwnaethom ystyried wyth cytundeb rhyngwladol, a chytunwyd i gymryd camau pellach ar saith o'r cytundebau hynny. Atodir ein hadroddiad dilynol, er gwybodaeth



i chi. Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiadau tebyg bob tro yr ydym wedi ystyried cytundebau o'r fath, y byddem yn hapus i'w rhannu gyda chi fel mater o drefn.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

